## Cyngor Caerdydd

## Trwydded Cerbydau Hacni
## Admodau Trwydded

1. Rhaid i bob cerbyd gael ei gyflwyno i'w arolygu yn ôl y gofyn, a chydymffurfio â'r holl ofynion statudol cyfredol i gerbydau ffordd a gyda gofynion anstatudol a osodir gan y Cyngor. Mae'r amod hwn heb ragfarn i'r pwerau a ddyfarnwyd dan Adran 68 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

2. Rhaid i bob cerbyd gael ei yrru o'r ochr dde a chael pedwar drws.

3. (a) Rhaid gosod platiau cerbyd ar y tu allan yng nghefn y cerbyd mewn lle clir ac amlwg naill ai'n uwch neu'n is, neu i'r chwith neu'r dde, o rif cofrestru'r cerbyd.

   (b) Rhaid i'r plât gael ei osod yn dynn ar y cerbyd â nytiau a bolltau, sgriwiau hunan-dyllu neu rybedion, neu'n anuniongyrchol â braced sydd wedi ei osod ar y cerbyd yn yr un modd.

   (c) Caiff y plât mewnol ei osod ar y tu mewn i'r cerbyd mewn lle y gall teithwyr ei weld yn hawdd.

   Dylid dychwelyd y ddau blât i'r Cyngor pan ddaw'r Drwydded i ben. Codir blaendal y gellir ei adennill a bydd tâl am unrhyw blatiau newydd.

4. Ni chaniateir unrhyw osodiadau, ac eithrio'r rhai y mae'r Cyngor yn eu cymeradwyo, y tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd.

5. **<u>Arddangos arwyddion a hysbysebion</u>**

   Ni chaiff unrhyw arwyddon neu hysbysebion eu gosod y tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd oni chymeradwyir hynny gan y Cyngor. Mae'r amodau canlynol yn berthnasol.

   5.1 <u>Ceir Salŵn Cerbyd Hacni</u>

   a) Caniateir hysbysebu allanol ar y tu allan i banel y drws blaen ar yr amod nad yw'n fwy na'r panel, a'i fod wedi'i gyfyngu i un hysbyseb yn unig heb unrhyw ffurf arall o hysbysebu ar y tu allan i'r cerbyd.
   b) Caniateir hysbysebu ffenestr flaen ar ffurf arwyddion math "mewn-olwg" tryloyw sy'n llai nag 8" (20cm) o ddyfnder ar yr amod nad oes unrhyw ffurf arall ar hysbysebu'n cael ei harddangos ar y cerbyd.
   c) Cymeradwyir hysbysebu allanol ar ffurf arddangosiad cap both yn amodol ar yr awdurdod yn cymeradwyo'r hysbyseb, yn ysgrifenedig, cyn ei defnyddio a bod yr arddangosiad cap both ac unrhyw hysbyseb arall ar y cerbyd ar gyfer yr un cynnyrch neu wasanaeth.
   d) Mae hysbysebu allanol ar ffurf arwyddion to wedi'u goleuo ar ben y cerbyd mewn ffordd gymeradwy yn amodol ar yr hysbyseb yn cael ei chymeradwyo gan yr awdurdod, yn ysgrifenedig, cyn ei defnyddio.

5.2 Cerbydau Hacni Pwrpasol

a) Caniateir hysbysebu allanol ar y tu allan i baneli drws blaen cerbydau ar yr amod nad yw'n fwy na dimensiynau panel y drws ac y'i cyfyngir i un hysbyseb yn unig, heb ffurf arall ar hysbysebu'n cael ei harddangos ar y tu allan i'r cerbyd.
b) Caniateir hysbysebion ar ddrysau dwbl Cerbydau Hacni pwrpasol cyn belled ag y mai dim ond un hysbyseb sy'n ymestyn ar hyd y ddau ddrws, nad yw'n fwy na phaneli'r ddau ddrws, ac nad oes unrhyw hysbysebion arall ar ran allanol o'r cerbyd.
c) Caniateir hysbysebu ffenestr flaen ar ffurf arwyddion math "mewn-olwg" tryloyw sy'n llai nag 8" (20cm) o ddyfnder ar yr amod nad oes unrhyw ffurf arall ar hysbysebu'n cael ei harddangos ar y cerbyd.
d) Caniateir hysbysebu mewnol ar ochr waelod y seddi gollwng heb fod yn fwy nag 14" (35cm) x 14" (35cm).
e) Caniateir hysbysebu mewnol ar y panel blaen mewnol heb fod yn fwy na 39" (100cm) x 4" (10cm).
f) Caniateir hysbysebu allanol llawn ar gyfer un cynnyrch ar y cerbyd cyfan yn amodol ar yr awdurdod yn cymeradwyo'r hysbyseb, yn ysgrifenedig, cyn ei defnyddio. Mae'r amod hwn yn berthnasol i gerbydau pwrpasol sy'n bodloni Amodau Ffitrwydd yr Heddlu Metropolitanaidd.
g) Caniateir hysbysebu allanol llawn ar gyfer un cynnyrch ar ochrau llawn o'r cerbyd mewn fformat uwch-ochr neu fega-ochr yn amodol ar yr awdurdod yn cymeradwyo'r hysbyseb, yn ysgrifenedig, cyn ei defnyddio.
h) Cymeradwyir hysbysebu allanol ar ffurf arddangosiad cap both yn amodol ar yr awdurdod yn cymeradwyo'r hysbyseb, yn ysgrifenedig, cyn ei defnyddio a bod yr arddangosiad cap both ac unrhyw hysbyseb arall ar y cerbyd ar gyfer yr un cynnyrch neu wasanaeth.
i) Gall sgrin yn dangos hysbysebion sy'n sgrolio neu'n symud gael ei gosod yn ddiogel yn y cerbyd ar yr amod nad yw'n amharu ar weledd y gyrrwr. Rhaid i un sleid ddynodi y caiff yr hysbysebion eu diffodd ar gais y teithiwr ac mae'n amodol ar bob hysbyseb unigol yn cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ysgrifenedig o flaen llaw. Mae'r amod hwn yn berthnasol i gerbydau pwrpasol sy'n bodloni Amodau Ffitrwydd yr Heddlu Metropolitanaidd.
j) Mae hysbysebu allanol ar ffurf arwyddion to trionglog wedi'u goleuo ar ben y cerbyd yn cael ei gymeradwyo'n amodol ar yr hysbyseb yn cael ei chymeradwyo gan yr awdurdod, yn ysgrifenedig, cyn ei defnyddio.

5.3 Rhaid i bob hysbyseb gyrraedd safonau'r Cyngor Safonau Hysbysebu ymhob mater sy'n ymwneud â chwaeth dda, o ran cyd-destun a gwedd a pheidio ag ymwneud â materion sydd a wnelo â thybaco, alcohol neu faterion o natur rywiol.

5.4 Gall arwydd allanol gael ei osod ar foned Cerbyd Hacni sy'n arddangos y geiriau 'Codir Teithiau Allan o'r Dref ar y Mesurydd' mewn llythrennau duon ar gefndir aur.

5.5 Gall offer TCC mewnol o fath a gymeradwywyd yn flaenorol gan yr Awdurdod gael ei osod yn unol â chyfarwyddiadau’r gweithgynhyrchwr yn amodol ar:

a) arwydd yn dynodi bod offer recordio’n cael ei ddefnyddio wedi'i arddangos yn glir yn y cerbyd, a;
b) pob delwedd a lawrlwythir o’r camera ar gael i’r Heddlu a Swyddogion Awdurdodedig ar gais.

6. Rhaid gwneuthur a chynnal pob cerbyd fel ei fod yn ddiogel a chyfforddus a rhaid i’r drysau agor yn ddigon eang fel y gall pobl adael a mynd i mewn i’r cerbyd yn hawdd heb fod yn anghyfleus i deithwyr.

7. Rhaid i bob cerbyd ac eithrio Cerbydau Hacni pwrpasol fodloni’r dimensiynau sylfaenol canlynol heb addasiadau i fanyleb y gweithgynhyrchwr yn fewnol:-

**a) Uchder**

Ni chaiff y mesuriad o ben clustogau’r sedd (heb gywasgu) yn rhan isaf y to ar y rhan isaf fod yn llai na 32 modfedd.

**b) Lle coesau**

Ni all y mesuriad rhwng cefn y seddi blaen a sgwab y sedd gefn fod yn llai na 30 modfedd. Lle gellir symud y seddi blaen gwneir y mesuriad yn y canol.

**c) Seddi (lled)**

Ni all lled y sedd gefn o’r sgwab i'r ymyl flaen fod yn llai na 18 modfedd.

**d) Sedd gefn (panel o ddrws i ddrws)**

Ni all y mesuriad rhwng paneli mewnol y ddau ddrws cefn a fesurir mewn llinell syth ar eu hyd ar y rhan letaf fod yn fwy na 54 modfedd.

**e) Capasiti Injan**

Ni fydd capasiti injan y cerbyd yn llai na’r hyn a gofnodir ar y ddogfen gofrestru wreiddiol onid mewn achosion a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Trwyddedu.

8. Rhaid i bob cerbyd fod wedi’i adeiladu’n bwrpasol fel Cerbyd Hacni neu fod yn geir a addasir yn addas cyn eu cyflwyno i'w trwyddedu. Rhaid i bob addasiad gynnwys:-

a) Matio trwm yn y mannau traed.
b) Blychau lludw i’w gosod yn y cefn.
c) Goleuadau mewnol yn gweithredu’n awtomatig pan fo’r drysau cefn yn agor neu switsh ar wahân wrth y gyrrwr.
d) Adran bagiau wedi’i goleuo

e) Darparu tecsifesurydd sy'n glir i'r holl deithwyr heb effeithio ar gyfforddusrwydd y teithwyr nac amharu ar reoliadau adeiladu a defnydd.
f) Ymestyn gwifrau cudd o arwydd ar y to a thacsifesurydd.
g) Diffoddwr tân a phecyn cymorth cyntaf addas.

9. Rhaid i bob cerbyd fod yn ddu fel o'r newydd neu gael ei ail-chwistrellu'n ddu'n broffesiynol gan gynnwys y bŵt ac ymylon drysau a fframiau a rhaid lliwio'r boned yn wyn cyn trwyddedu ac eithrio cerbydau sy'n bodloni Amodau Addasrwydd Metropolitan y mae'n rhaid iddynt fod yn ddu i gyd yn unol ag amod 5.2.

10. Caiff pob cerbyd (ac eithrio'r rhai y mae'r Cyngor yn cydnabod eu bod wedi'u hadeiladu'n bwrpasol) ei osod ag arwydd to o ddyluniad cymeradwy â llythrennau du o'r un maint a math, gan fod mewn cyflwr da, glân.

11. Ni chyflwynir trwydded gyrrwr nes talu'r ffi briodol. Lle telir â siec nas anrhydeddir yn y pendraw, bydd unrhyw drwydded yn annilys.

12. Ni chaniateir newid cerbyd am un a drwyddedwyd ac eithrio gan ddilyn y weithdrefn gymeradwy.

13. Rhaid i gopi o'r Dystysgrif Yswiriant gyfredol gael ei ddangos yn amlwg yn y cerbyd heb fynd yn groes i Reoliadau Adeiladu a Defnyddio Cerbydau Ffordd.

14(1). Fel Canllaw Polisi:-

(a) Rhaid i gerbydau a gyflwynir i'w trwyddedu am y tro cyntaf fod yn llai na 25 mis oed ac ni chânt eu hail-drwyddedu os ydynt yn fwy na 6 oed.
(b) Ni all Cerbyd Hacni pwrpasol na cherbydau prestige pan y'u cyflwynir i'w trwyddedu am y tro cyntaf fod yn fwy na 10 oed, ac ni chânt eu hail-drwyddedu os ydynt yn fwy na 10 oed.

14(2). Profi Cerbydau

(a) Rhaid profi cerbydau a gofrestrwyd yn gyntaf yn ystod y 4 blynedd ddiwethaf bob blwyddyn, ac os llwyddant, cyflwynir trwydded 12 mis ar eu cyfer.
(b) Rhaid i gerbydau sy'n hŷn na 4 oed o ddyddiad eu cofrestru gyntaf gael eu profi bob blwyddyn ac o lwyddo'r prawf cânt drwydded 6 mis.
(c) Bydd cerbydau y mae'r Cyngor yn cydnabod yn gerbydau pwrpasol yn ddarostyngedig i drwyddedu blynyddol a phrofi hyd nes eu bod yn 10.

15. Rhaid i gerbydau gael eu ffitio gyda thacsifesurydd o ddyluniad cymeradwy, wedi'i selio a'i brofi'n gywir, a rhaid cadw pob tacsifesurydd mewn cyflwr da.

16. Caniateir systemau rheoli ac anfon tacsis GPS sy'n cynnwys dyfais data symudol yn y cerbyd a system anfon ganolog y mae Cyngor Dinas Caerdydd yn eu cymeradwyo. Rhaid eu gosod yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Nid yw'r system GPS yn dacsifesurydd. Gellir ei defnyddio ochr yn ochr â thacsifesurydd cymeradwy'r cerbyd ac ni ellir ei disodli.

17. Rhaid i bob cerbyd y mae'r Cyngor wedi'i gydnabod fel un pwrpasol cyn cael ei drwyddedu gael System Cloi Drysau Ganolog gymeradwy.

18. Ni chaiff trwydded cerbyd ei hadnewyddu pan fo trosglwyddo'n digwydd yn ystod y flwyddyn gynt oni chymeradwyir hynny gan y Cyngor. Nid yw'r cyfyngiad hwn ond yn berthnasol i drwyddedau cerbyd am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad ei chyflwyno'n gyntaf.

19. Ni fydd Trwyddedai/Perchennog Cerbyd Hacni trwyddedig yn rhentu, llogi, prydlesu na benthyg ei gerbyd i unrhyw berson nad oes ganddo Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat a gyflwynir gan Gyngor Dinas Caerdydd.

20. Ni fydd Trwyddedai/Perchennog Cerbyd Hacni trwyddedig yn cyflogi unrhyw un i yrru ei gerbyd nad oes ganddo Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat gyfredol a gyflwynir gan Gyngor Dinas Caerdydd.

21. Yn achos Trwyddedeion/Perchenogion sy'n rhentu, prydlesu, llogi neu fenthyg eu Cerbydau Hacni, bydd y Trwyddedai/Perchennog yn cadw a darparu cofrestr addas gan nodi arno'r manylion canlynol o ran manylion y gyrrwr y rhentwyd, llogwyd, prydleswyd neu fenthycwyd y cerbyd iddo.

a) Enw a chyfeiriad y gyrrwr.
b) Rhif y Bathodyn a dyddiad dod i ben y Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Llogi Preifat o ran y gyrrwr.
c) Rhif plât a rhif cofrestru'r cerbyd a rentwyd, llogwyd, benthycwyd neu brydleswyd.
d) Dyddiad(au) ac amser(oedd) rhentu, llogi, prydlesu neu fenthyg y cerbyd gan y gyrrwr.

Cedwir y cofnodion am o leiaf 12 mis, byddant mewn trefn gronolegol a rhaid eu cyflwyno ar gais i swyddog awdurdodedig y Cyngor neu gwnstabl yr heddlu i'w harolygu.

22. Y gofynion anstatudol i Gerbydau Haci y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) megis gofynion a osodir gan y Cyngor yw:-

1. ***<u>Cragen y cerbyd</u>***

Gan gynnwys drysau, paneli, bympers, a'r llawr mewnol i fod mewn cyflwr da, heb rwd, tyllau, metel toredig neu ddifrod gweledol arall.

2. ***<u>Gwaith paent</u>***

Cerbydau Hacni i fod o gynllun lliw sy'n ofynnol gan y Cyngor.

3. ***<u>Gorchuddion Sedd</u>***

Rhaid iddynt fod mewn cyflwr da, glân a heb unrhyw rwyg, difrod, olew nac unrhyw ddifwyniant arall.

4. ***<u>Gorchuddion Llawr</u>***

Rhaid iddynt fod mewn cyflwr da, glân a heb eu difwyno.

5. ***Gorffeniadau Mewnol***

Rhaid iddynt fod mewn cyflwr da, glân a heb unrhyw rwyg, difrod, olew nac unrhyw ddifwyniant arall.

6. ***Colfachau Drws***

Rhaid iddynt fod mewn cyflwr da, pob un yn gweithio, a drysau yn eistedd gywir pan fônt ar gau.

7. ***Ffenestr Flaen a'r Ffenestri***

Rhaid iddynt fod mewn cyflwr da, glân a heb ddifrod. Rhaid i'r holl ffenestri gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol o ran treiddiad golau. Dim ond tintiau gwreiddiol gan y gwneuthurwr a ganiateir ar y ffenestri cefn.

8. ***Ffenestri Ochr a'r Dolenni***

I fod mewn cyflwr da ac yn gweithio'n gywir.

9. ***Diffoddwr Tân, Olwyn Sbâr, Carntro a Jac***

a) Dylid cadw diffoddwr tân sydd mewn cyflwr da mewn safle hawdd ei gyrraedd yn y cerbyd; ac
b) Onid yw'r cerbyd wedi'i osod â theiars gwastad a gymeradwyir gan y gweithgynhyrchwr neu fod ganddo offer trwsio teiars brys rhaid cario olwyn sbâr lawn neu gywasgedig mewn cyflwr da ynghyd â'r offer priodol i newid olwyn.
c) Os yw cerbyd yn gorfod cael ei ddefnyddio ag 'olwyn sbâr arbed lle' i gwblhau llogi, ni ellir ei ddefnyddio am unrhyw logiadau pellach nes i'r olwyn gael ei hamnewid.
d) Os caiff olwyn ei thrwsio â phecyn argyfwng er mwyn cyrraedd pen taith cwsmer, ni chaniateir gyrru'n gynt nac ymhellach na'r hyn a nodir ym mhecyn trwsio'r gwneuthurwr. Ni cheir defnyddio'r cerbyd ar gyfer unrhyw deithiau eraill i gwsmeriaid hyd nes yr atgyweirir neu yr adnewyddir y teiar ac y prynir pecyn trwsio newydd.

10. ***Bŵt neu Gist Dal Bagiau***

Rhaid iddynt fod yn lân ac ar gael i roi eiddo teithwyr ynddynt. Rhaid i danc LPG a osodir ym mŵt y cerbyd o ganlyniad i addasu tanwydd fod â chapasiti o 100 litr neu'n llai a bod wrth bontydd yr olwyn. Ni ellir gosod un mwy o faint heb gymeradwyaeth y Cyngor.

11. ***Gollyngiadau Olew***

Ni chaiff olew fod yn gollwng o'r injan.

12. ***Tu Mewn a’r Tu Allan***

Ni cheir gosod ffitiadau nac arwyddion y tu mewn na’r tu allan i’r cerbyd oni cheir caniatâd gan y Cyngor.

Mae’r gofynion uchod ar ben y safonau gofynnol a osodir gan brawf dilysrwydd ffordd yr Adran Drafnidiaeth (y Prawf MOT).

23. Ni ddylai unrhyw beth yn yr amodau hyn leihau’r ddyletswydd sydd ar y Cyngor i ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau ei hun a dylid dehongli a gweithredu’r amodau hyn yn briodol.

***Caiff Deiliaid Trwydded eu hatgoffa bod Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn gwneud y darpariaethau canlynol sy’n berthnasol i Gerbydau Hacni.***

(a) Rhaid i gerbydau gael eu cyflwyno i’w harolygu’n ôl y gofyn.

(b) Rhaid cyflwyno dogfen gofrestru, tystysgrif yswiriant gyfredol a gyflwynir dan Ran IV Deddf Traffig Ffyrdd 1972 a thystysgrif MOT gyfredol ar adeg y cais am brawf cerbyd neu adnewyddu neu gyflwyno trwydded.

(c) O gael ei hysbysu’n ysgrifenedig o ddiffyg sydd ym marn y swyddog awdurdodedig yn gwneud cerbyd yn anaddas at wasanaeth cyhoeddus, rhaid i ddeiliad y drwydded waredu’r cerbyd hwnnw o wasanaeth yn llwyr nes i’r diffyg gael ei wella i fodloni’r swyddog awdurdodi.

(d) Bydd deiliad y drwydded yn hysbysu’r swyddog awdurdodi am unrhyw addasiad yn nyluniad neu adeiledd neu o ddifrod i’w gerbydau ymhen 72 awr i hynny ddigwydd.